Policy and procedure

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyfeirnod: 414A2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Prif gyswllt: Bernadette Daley

Dyddiad adolygu: Mawrth 2019

Polisi teithio a chynhaliaeth y Bwrdd

Cwmpas

1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys aelodau cyflogedig, pan fyddant yn hawlio treuliau roedd yn rhesymol iddynt eu hysgwyddo tra oeddent yn ymgymryd â busnes y Bwrdd.

Egwyddorion

2 Mae'r polisi hwn yn cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu i arfer ei gyfrifoldebau personol dros reoli arian cyhoeddus, drwy lynu wrth yr egwyddorion a ganlyn yn ymwneud â theithio a threuliau:

- ni ddylai unrhyw aelod o'r Bwrdd ysgwyddo costau personol os oes raid iddynt deithio i ymgymryd â busnes y Bwrdd;
- mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio sicrhau gwerth am arian, gan ystyried costau, fforddiadwyedd, yr effaith ar yr amgylchedd, dyletswydd gofal, lles ac effeithlonrwydd gweithredol;
- mae'r trefniadau'n dryloyw, ac mae atebolrwydd yn glir ac yn adlewyrchu gwerthoedd sefydliadol Swyddfa Archwilio Cymru;
- mae'r trefniadau'n cydymffurfio â gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Cyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd

3 Rhaid i aelodau'r Bwrdd:

- fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a chydymffurfio ag ef;
- sicrhau bod unrhyw gostau'n rhesymol, bod modd eu cyfiawnhau'n gyhoeddus, ac y bu'n rhaid eu hysgwyddo i ymgymryd â busnes y Bwrdd;
- dewis y ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio gan ystyried amser, cost tocynnau a nifer y milltiroedd a deithiwyd;
- defnyddio tîm y Gwasanaethau Busnes i drefnu eu taith a'u llety, oni bai y byddai trefniadau eraill yn fwy effeithlon a chost-effeithiol;

- sicrhau bod pob cais am dreuliau'n gywir ac yn cynnwys derbynebau, os yw hynny'n briodol;
- cyflwyno ceisiadau am dreuliau cyn pen tri mis fan bellaf ar ôl y dyddiad y bu'n rhaid iddynt ysgwyddo'r costau.

Cyflwyno ac awdurdodi ceisiadau

4 Rhaid hunanardystio ceisiadau i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau'r polisi. Rhaid cyflwyno pob cais drwy'r system dreuliau a hynny cyn pen tri mis ar ôl y dyddiad y cafodd y gost ei hysgwyddo. Os yw'r polisi hwn yn galw am hynny, rhaid cynnwys derbynebau neu, yn anaml iawn, y rhesymau dros beidio â chynnwys derbynneb.

5 Os nad yw aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno cais cyn pen tri mis ar ôl y dyddiad y cafodd y gost ei hysgwyddo, caiff ei wrthod yn awtomatig ac ni chânt ad-daliad ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

6 Caiff y ceisiadau eu cydlofnodi gan:

- y Cadeirydd yn achos ceisiadau'r Archwilydd Cyffredinol;
- yr Archwilydd Cyffredinol yn achos ceisiadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (oni bai bod gwrthdaro buddiannau posibl; bryd hynny, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol fydd yn eu cydlofnodi;
- Ysgrifennydd y Bwrdd yn achos pob cais arall.

7 Y tîm Cyllid sy'n gyfrifol am awdurdodi a thalu'r holl geisiadau cymwys. Bydd yn ad-dalu'r treuliau cyn pen wyth diwrnod gwaith ar ôl cael cais sydd wedi'i gydlofnodi.

Ad-dalu costau teithio

8 Caiff aelodau'r Bwrdd ad-daliad os ydynt wedi ysgwyddo costau rhesymol wrth deithio rhwng eu cartref neu eu gweithle a lleoliadau eraill at ddibenion busnes y Bwrdd, os cânt eu hawlio'n unol â'r polisi hwn.

Milltiroedd busnes

9 Os bydd aelodau'r Bwrdd yn defnyddio car, beic modur neu feic, neu'n defnyddio'u trafnidiaeth eu hunain i deithio, caiff y costau eu had-dalu'n ôl cyfraddau Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cyfateb i'r cyfraddau y bydd CThEM yn eu cyhoeddi a'u diweddaru'n rheolaidd. Ni chynigir ad-daliad uwchlaw cyfradd 2000cc.

10 Dylai'r milltiroedd a nodir adlewyrchu gwir bellter y daith a bu'n rhaid ymgymryd â hi i gyflawni dyletswyddau'r Bwrdd ac, fel arfer, hon fydd y siwrnai fyrraf. Ni ddylid cynnwys unrhyw siwrnai arall a wnaed ar y ffordd at ddibenion nad oeddent yn ymwneud â dyletswyddau'r Bwrdd.

11 Os bydd aelod o'r Bwrdd yn cludo cydweithwyr, gall hawlio 5c y filltir yn ychwanegol.

12 Rhaid i aelod o'r Bwrdd fod â thrwydded yrru ddilys, tystysgrif MOT ddilys (os oes ei hangen yn gyfreithlon) ac yswiriant teithio ar gyfer busnes, cyn iddynt ddefnyddio'u car neu eu beic modur eu hunain. Rhaid sganio'r dogfennau hyn, ynghyd â dogfen gofrestru V5, a'u hatodi i'r system dreuliau cyn cyflwyno cais. Ni fydd costau'n cael eu had-dalu os na chaiff y dogfennau hyn eu cynnwys.

13 Ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn talu unrhyw gostau a fydd yn codi oherwydd y cymalau tâl ychwanegol y polisi yswiriant ac ni fydd yn atebol am unrhyw ddigwyddiadau ar y ffordd yn ystod y daith.

14 Rhaid i aelodau'r Bwrdd roi gwybod i'r Tîm Adnoddau Dynol am unrhyw arnodiad neu bwyntiau a ychwanegir at eu trwydded yrru, a hynny ar unwaith.

Costau teithio eraill

15 Gall yr aelodau ddefnyddio'r tîm Gwasanaethau Busnes i drefnu teithiau busnes.

Ar y trên	Bydd tîm y Gwasanaethau Busnes yn archebu tocynnau trên safonol bob tro. Os yw aelodau'r Bwrdd yn archebu eu tocynnau'u hunain, cost tocyn safonol gaiff ei had-dalu.
Mewn awyren	Dylid defnyddio tîm y Gwasanaethau Busnes bob amser i archebu tocyn awyren. Tocynnau economi gaiff eu harchebu bob tro. Mae'n bosibl archebu lle i barcio car/ystafell mewn gwesty os yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer y daith.
Costau parcio yn ystod taith fusnes	Caiff costau parcio eu had-dalu ond dim ond os gellir dangos derbynebau.
Cost tacsi	Gellir archebu tacsi drwy'r dderbynfa (drwy ddefnyddio'r cyfrif). Os bydd aelod yn defnyddio tacsi na chafodd ei archebu drwy'r dderbynfa, caiff y gost ei had-dalu os oedd yn arbed amser drwy wneud hynny. Rhaid dangos derbynebau.
Llogi car	Gall tîm y Gwasanaethau Busnes drefnu i aelodau logi car ar gyfer taith fusnes os dyna yw'r dewis mwyaf cost-effeithiol. Rhaid iddynt ddangos ymlaen llaw bod ganddynt drwydded yrru lawn a glân. Os oedd y tanc yn llawn o betrol ar ddechrau'r daith, rhaid i'r aelod ei lenwi eto ar ddiwedd y daith.

Cynhaliaeth yn ystod y dydd

16 Gan ddibynnu at batrwm gwaith unrhyw ddiwrnod penodol, mae'n bosibl y bydd modd hawlio ad-daliad am y canlynol:

- brecwast - hyd at uchafswm o £5 (os bydd yr aelod yn gadael cartref cyn 7.00am);
- pryd o fwyd gyda'r nos - hyd at uchafswm o £10 (os bydd yr aelod yn cyrraedd adref ar ôl 8pm); a
- lluniaeth rhesymol - hyd at uchafswm o £5 (os yw'r daith dros ddwy awr o hyd).

17 Ni chaiff costau rhoddion a diodydd meddwol eu had-dalu.

Cynhaliaeth dros nos

18 Bydd tîm y Gwasanaethau Busnes yn trefnu ystafell i chi dros nos os credir bod angen hynny er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd yn effeithlon neu i sicrhau lles aelodau'r Bwrdd, gan ddibynnu ar leoliad y cyfarfod. Ystyrir pellter/amser teithio a'r amseroedd y bydd dyletswyddau'r Bwrdd yn dechrau ac yn gorffen.

19 Nodir isod yr uchafswm y gellir ei hawlio am aros dros nos:

Gwestai'r tu allan i ardal Llundain (ystafell a brecwast yn unig)	Hyd at uchafswm o £110 y noson
Gwestai yn ardal Llundain (ystafell a brecwast yn unig)	Hyd at uchafswm o £200 y noson
Gwesty ond nid brecwast – bydd mod ad-dalu cost brecwast	Hyd at uchafswm o £15 (rhaid cynnwys derbynneb ddilys gyda phob cais)
Pryd o fwyd gyda'r nos	Hyd at uchafswm o £25 (rhaid cynnwys derbynneb ddilys gyda phob cais)
Aros gyda ffrindiau neu deulu i ymgymryd â busnes Swyddfa Archwilio Cymru	Lwfans unffurf o £20 y noson. Mae'r taliad yn fudd trethadwy a Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost hon.
Mân dreuliau'n gysylltiedig ag aros dros nos – gellir ad-dalu costau personol	Lwfans unffurf o £5 y noson ac nid oes angen dangos derbynneb.

20 Ni chaiff costau rhoddion a diodydd meddwol eu had-dalu.

Cyhoeddi treuliau

21 Mae treuliau'r Bwrdd yn fater sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd a chânt eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd i atebolrwydd ac yn unol â Chynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth a'r canllawiau cysylltiedig.

Gwyro oddi wrth y polisi hwn

22 Rhaid i'r aelodau ystyried yn ofalus cyn gwyro oddi wrth y polisi hwn. Rhaid i'r Cadeirydd awdurdodi pob cais o'r fath ac, os yw'r Cadeirydd am wyro oddi wrth y polisi, rhaid i Ysgrifennydd y Bwrdd neu'r Cyfarwyddwr Cyllid awdurdodi'r cais. Rhaid i Ysgrifennydd y Bwrdd neu'r Cyfarwyddwr Cyllid roi gwybod i'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol (fel y Swyddog Cyfrifyddu), yn ysgrifenedig, am unrhyw geisiadau sydd, yn eu barn nhw, yn gynhennus.